

Dydd Mercher, 13 Medi 2023

Hysbysiad o gyfarfod:**Cyngor Sir****Dydd Iau, 21ain Medi, 2023 at 2.00 pm,
Council Chamber - Council Chamber****AGENDA**

Cynhelir gweddïau cyn y cyfarfod Cyngor am 13.50pm. Mae croeso i bob aelod ymuno â'r Cadeirydd ar gyfer hynny os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Eitem No	Eitem	Tudalennau
1.	Ymddiheuriadau am absenoldeb	
2.	Datganiadau o Fuddiant	
3.	Cyhoeddiad y Cadeirydd a Deisebau Sydd Wedi Eu Derbyn	1 - 2
3.1.	E-Ddeiseb - Achubwch Ein Mannau Agored Gwyrdd https://democracy.monmouthshire.gov.uk/mgEPetitionDisplay.aspx?ID=14&RPID=23812375&HPID=23812375	
4.	Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed Gorffennaf 2023	3 - 6
5.	Cadarnhau cofnodion y cyfarfod Eithriadol a gynhaliwyd ar 31ain Awst 2023	7 - 8
6.	ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2022/23	9 - 16
7.	ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2022/23	17 - 20
8.	ADRODDIAD AR DREFNIADAU CRAFFU AR Y CYD AR GYFER CYD-BWYLLGORAU CORFFORAETHOL	21 - 30
9.	Cynigion i'r Cyngor	

9.1. Wedi ei gyflwyno gan y Cyngorydd Sir Peter Strong

Mae'r Cyngor hwn yn ymrwymo i Sir Fynwy ddod yn sir noddfa gan groesawu a chefnogi'r rhai sy'n ffoi rhag rhyfel ac erledigaeth. Fel rhan o'r addewid hwn byddwn yn ymdrechu i ddod yn aelod achrededig o Rwydwaith Dinas Noddfa'r DU. Byddwn yn adeiladu ar waith sydd eisoes wedi'i wneud gan yr Awdurdod i gefnogi ffoaduriaid o Afghanistan, Syria a'r Wcráin a'n gweithio gyda phartneriaid ar draws y gymuned i ddatblygu cynllun gweithredu i gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gan hyrwyddo a dathlu'r cyfraniad y maent yn ei wneud i'n cymunedau.

9.2. Wedi ei gyflwyno gan y Cyngorydd Sir Alistair Neill

Mae'r Cyngor hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelod Cabinet ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Iechyd Hygyrch gyflwyno cynllun prosiect sy'n archwilio'n llawn y potensial i greu Canolfan Iechyd a Lles sy'n cynnal darpariaeth hyd at 2 ddiwrnod yr wythnos o wasanaethau meddygon teulu gofal sylfaenol lleol hanfodol ar gyfer y 3,100 o drigolion cofrestredig Gilwern a'r cymunedau cyfagos. Byddai'r cynllun hwn yn dod yn dempled ar gyfer cau unrhyw feddygon teulu preifat pellach yn ein sir.

9.3. Wedi ei gyflwyno gan y Cyngorydd Sir Richard John

Mae'r Cyngor hwn:

- Yn cymeradwyo holl argymhellion yr adolygiad allanol arbenigol o wasanaeth Fy Niwrnod, Fy Mywyd
- Yn nodi bod y Cyngor yn parhau i werthuso opsiynau ar gyfer darpariaeth hirdymor i oedolion ag anableddau dysgu, a bod angen cyflwyno cynllun prosiect o fewn chwe wythnos, gan nodi ei hoff ddull
- Yn cyfarwyddo'r weinyddiaeth i baratoi ar gyfer ailagor canolfan ddydd Tudor Street yn y cyfamser

9.4. Wedi ei gyflwyno gan y Cyngorydd Sir Frances Taylor

Bod y Cyngor hwn yn cydnabod y ddyletswydd i ddod o hyd i safleoedd addas ar gyfer darpariaeth Lleiniau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr a; 1, Yn cymeradwyo casgliad y Pwyllgor Craffu Pobl ar 19eg Gorffennaf pan wrthododd aelodau traws-grŵp y cynigion i ymgynghori ar y pum darn o dir sy'n eiddo i'r Cyngor ac argymell bod y Cyngor yn ail-ystyried y mater. Cytunodd yr Aelodau i beidio ag argymell unrhyw ddarnau o dir i'r Cabinet er mwyn ymgynghori'n ffurfiol arnynt, a hynny'n seiliedig ar bryderon am y broses, gwybodaeth wallus ac anghyflawn a diffyg addasrwydd unrhyw un o'r safleoedd

dan

sylw.

2, Cytuno nad yw'r un o'r safleoedd ar y rhestr fer i'w hystyried gan y Cabinet yn addas, gan gynnwys y safleoedd yn Langley Close, Magwyr a Dancing Hill,

3, Yn unol â chanfyddiadau'r Pwyllgor Craffu, cytuno i wrthod y safleoedd ym Magwyr a Gwndy fel rhai anaddas i'w datblygu yn Lleiniau Sipsiwn a Theithwyr.

10. Cwestiynau gan Aelodau

10.1. O'r Cynghorydd Sir Emma Bryn i'r Cynghorydd Sir Catrin Maby, Aelod, Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

Roeddem yn falch iawn o glywed y cyhoeddiad am gynlluniau i atgyweirio Pont Afon Gwy ym mis Ionawr, gan fod wyneb y bont hon wedi bod mewn cyflwr gwael ers sawl blwyddyn.

Ond gyda'r newyddion bod y gwaith atgyweirio nawr i'w ohirio tan y flwyddyn nesaf, tybed a all yr Aelod Cabinet gadarnhau y bydd yr arian yn parhau i fod ar gael ac y bydd yn dal yn ddigonol i dalu am y gwaith sydd ei angen i atgyweirio'r bont yn llawn ac i lefel uchel safonol.

Hefyd, roedd llawer o drigolion a busnesau sy'n dibynnu ar fynediad dros y bont yn bryderus iawn o glywed y gallai'r bont fod ar gau yn gyfan gwbl ar gyfer mynediad i gerbydau am hyd at 5 wythnos gyfan. Achosodd ansicrwydd ynghylch y cyfnod cau bryder i lawer o drigolion a busnesau sy'n dibynnu ar fynediad at waith, iechyd a darpariaethau. A fyddai modd i ni gael syniad cliriach o ba mor hir y bydd y bont ar gau a pha fesurau lliniaru sy'n cael eu rhoi ar waith i liniaru rhai o ganlyniadau hyn cyn cyhoeddi dyddiad yn y dyfodol, gan gynnwys gwybodaeth am addasiadau arfaethedig i wasanaethau cyhoeddus yn ystod y cyfnod hwn, a chyfleusterau parcio dros dro bob ochr i'r bont.

Byddem yn croesawu cyfarfod cyhoeddus yn Wyesham yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf i gyfathrebu â thrigolion y mesurau lliniaru y gallwn eu rhoi ar waith ac i ddeall anghenion y gymuned hon yn well.

10.2. O'r Cynghorydd Sir Jane Lucas i'r Cynghorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet ar gyfer Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

A wnaiff yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau i atgyweirio Pont Gwy yn Nhrefynwy?

10.3. O'r Cynghorydd Sir Richard John i'r Cynghorydd Sir Paul Griffiths, Aelod Cabinet ar gyfer Cynllunio a Datblygu Economaidd

A fyddai'r Aelod Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y CDLI Newydd

<p>10.4.</p>	<p>O'r Cynghorydd Sir Christopher Edwards i'r Cynghorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet ar gyfer Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd</p> <p><i>A allai'r Aelod Cabinet roi gwybod i'r Cyngor pa wersi sydd wedi'u dysgu o'r cynllun rheoli traffig a roddwyd ar waith yn fy ward yn St Kingsmark, Casgwent ar gyfer y penwythnos o gerddoriaeth fyw a gynhaliwyd gan Chepstow Concerts a oedd yn cynnwys 3 diwrnod o ddigwyddiadau mawr ym mis Mehefin/Gorffennaf eleni.</i></p>	
<p>10.5.</p>	<p>10.5. O'r Cynghorydd Sir Simon Howarth i'r Cynghorydd Sir Ian Chandler, Aelod Cabinet ar gyfer Gofal Cymdeithasol, Diogelu a Gwasanaethau Iechyd Hygyrch</p> <p><i>A fyddai'r Aelod Cabinet yn derbyn bod methiannau wedi digwydd wrth fwrw ymlaen â datrysiad i ddarparu gofal iechyd gyda chymuned Llanelli a'r ardaloedd cyfagos.</i></p> <p><i>A wnaiff roi sicrwydd y bydd ef, gydag uwch swyddogion, yn rhoi ei sylw pennaf gyda'r bwrdd iechyd, hefyd yn bwysicaf oll yn edrych am benderfyniad wrth gyflawni cynllun gofal ar gyfer yr ardal a'r gymuned gyfagos.</i></p>	
<p>10.6.</p>	<p>O'r Cynghorydd Sir Tony Kear i'r Cynghorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet ar gyfer Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd</p> <p><i>A all yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen ar gyfer yr adolygiad sir gyfan arfaethedig o feysydd parcio?</i></p>	
<p>11.</p>	<p>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf - 26ain Hydref 2023</p>	

**Paul Matthews
Prif Weithredwr**

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

Rachel Buckler
Laura Wright
Tony Kear
Catrin Maby
Jan Butler
Ian Chandler
Sara Burch
Alistair Neill
Su McConnel
Mary Ann Brocklesby
Fay Bromfield
Jane Lucas
Emma Bryn
Peter Strong
Meirion Howells
Paul Griffiths
Jackie Strong
Rachel Garrick
Maria Stevens
Steven Garratt
Angela Sandles
Ben Callard
John Crook
Tomos Davies
Dale Rooke
Catherine Fookes
Sue Riley
Jayne McKenna
Jill Bond
Louise Brown
Lisa Dymock
Tony Easson
Christopher Edwards
Martyn Groucutt
Simon Howarth
Richard John
David Jones
Penny Jones
Malcolm Lane
Phil Murphy
Paul Pavia
Maureen Powell
Frances Taylor
Tudor Thomas
Armand Watts
Ann Webb

Gwybodaeth Gyhoeddus

Mynediad i gopiâu papur o agendâu ac adroddiadau

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

Edrych ar y cyfarfod ar-lein

Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

Y Gymraeg

Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn yn barchus i chi roi rhybudd digonol i ni er mwyn darparu ar gyfer eich anghenion.

Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

Amcanion y gweithiwn tuag atynt

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

Ein Gwerthoedd

Bod yn agored. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

Tegwch. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

Hyblygrwydd. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

Gwaith Tim. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatrysyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

Caredigrwydd – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.